------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 1 Mawrth 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 54(v3)

### Cwestiwn Brys

I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:

**Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am adroddiadau bod Ford yn bwriadu cael gwared â dros 1,000 o swyddi o'i waith adeiladu peiriannau ym Mhen-y-bont ar Ogwr?

### 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 4 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Ymchwiliadau ac Ymgysylltu

(30 munud)

## 5 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6245** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cyfraniad amlwg Cymru i'r chwyldro diwydiannol, i greu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'i rôl arweiniol o ran datblygu'r ddarpariaeth addysg uwchradd.

2. Yn gresynu:

a) at ystadegau diweddar gwerth ychwanegol gros (GVA) a ryddhawyd ym mis Rhagfyr 2016 sy'n dangos mai 71 y cant o gyfartaledd GVA y pen y DU oedd GVA y pen Cymru yn 2015, sef yr isaf ymysg y gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr;

b) y bydd cleifion yng Nghymru yn aros yn sylweddol hirach i gael diagnosis a thriniaeth nag y byddent am yr un cyflyrau yn Lloegr a'r Alban; ac

c) at berfformiad diweddaraf Cymru yn Rhaglen Asesiadau Myfyrwyr Rhyngwladol 2015 Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016, a oedd yn dangos bod sgorau mathemateg, darllen a gwyddoniaeth 2015 yn is nag yn 2006, ac yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y DU.

3. Yn cydnabod:

a) rôl hanfodol addysg a sgiliau fel ysgogiad pwysig i wella lefelau cynhyrchiant economaidd Cymru;

b) yr angen am wella cyson o ran amseroedd aros Cymru ar gyfer diagnosis a thriniaeth; ac

c) potensial yr economi las a gwyrdd o ran sicrhau ffyniant economaidd Cymru yn y dyfodol.

'Gwerth ychwanegol crynswth rhanbarthol a gwerth ychwanegol crynswth isranbarthol, Rhagfyr 2016'

'OECD Programme for International Student Assessment 2015' (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn nodi:

a) bod cyfradd ddiweithdra Cymru wedi gostwng i 4.4%, sy'n is na chyfartaledd y DU;

b) bod y dangosyddion ansawdd gofal iechyd a gyhoeddwyd gan yr OECD yn ddiweddar yn dangos bod Cymru'n perfformio ar lefel gyfatebol neu well na gwledydd eraill y DU o ran y rhan fwyaf o'r dangosyddion;

c) bod canlyniadau arholiadau TGAU Cymru yn 2015/16 yn dangos bod y prif fesur perfformiad wedi cynyddu bob blwyddyn ers i'r cofnodi ddechrau yn 2006-07, a bod y bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a chyrhaeddiad eu cyd-ddisgyblion yn cau.

'Dangosyddion ansawdd gofal iechyd yr OECD'

'Canlyniadau arholiadau yng Nghymru, 2015/16'

## 6 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

(60 munud)

**NDM6244** [David J Rowlands (Dwyrain De Cymru):]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu, er y gall contractau dim oriau fod o fantais i gyflogwyr a gweithwyr o ran y rhyddid a'r hyblygrwydd y gallant ei gynnig, gallant hefyd greu problemau o ran incwm sefydlog, sicrwydd o ran cyflogaeth, statws cyflogaeth a'r cydbwysedd o ran y pŵer rhwng cyflogwr a chyflogai.

2. Yn nodi mai rhithiol yn hytrach na real yw'r rhyddid hwn i'r rhan fwyaf o'r rhai a gaiff eu cyflogi ar gontractau dim oriau, a bod bywyd ar gontractau dim oriau, i'r rhai sydd angen isafswm oriau gwaith wythnosol i sicrhau diogelwch ariannol i'w teulu, yn un o ansicrwydd parhaol;

3. Yn nodi bod yr ansicrwydd hwn, i'r rhai y mae eu horiau wedi'u cwtogi neu eu newid oherwydd amharodrwydd canfyddedig i weithio'r oriau sydd eu hangen ar y cyflogwr neu'n dilyn cŵyn yn y gweithle, yn gallu cyd-fynd â'r pryder sy'n deillio o gamfanteisio.

4. Yn credu bod gan weithio contractau dim oriau y gallu i:

a) creu bywyd o straen;

b) cael effaith negyddol ar reoli cyllidebau teuluol;

c) effeithio ar ymrwymiadau teuluol;

d) tanseilio hawliau a chysylltiadau cyflogaeth; ac

e) cymhlethu'r gallu i gael gafael ar gredydau treth a budd-daliadau eraill, gyda phryder cynyddol am y nifer gynyddol o bobl sy'n dibynnu arnynt.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn credu y gall y potensial i waith ac enillion amrywio o ganlyniad i gontractau dim oriau fod yn ffynhonnell straen ac ansefydlogrwydd ariannol ac y gall telerau

ac amodau cyflogaeth annheg gael effaith negyddol ar forâl a chynhyrchiant staff mewn modd sy'n arwain at wasanaeth o ansawdd gwaeth.

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pwyntiau 2, 3 a 4 a rhoi yn eu lle:

Yn nodi bod arferion cyflogaeth yn newid yn gyflym, gan gynnwys cynnydd mewn contractau dim oriau, hunangyflogaeth a gwaith 'gig' tymor byr.

Yn cydnabod y gwaith a wnaed gan Lywodraeth y DU i gael gwared ar achosion o gamddefnyddio contractau dim oriau, gan gynnwys gwahardd cymalau cyfyngu.

Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi comisiynu Adolygiad Taylor ar Arferion Cyflogaeth Modern a fydd yn ystyried goblygiadau mathau newydd o waith i hawliau a chyfrifoldebau gweithwyr.

Datganiad i'r Wasg - 'Taylor review on modern employment practices launches'

*[Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 4 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 3 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu bod ymdrechion gan Blaid Cymru i wahardd contractau dim oriau mewn gwahanol sectorau ar bum achlysur gwahanol yn ystod y Pedwerydd Cynulliad wedi cael eu trechu gan Lywodraeth Lafur Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig.

**Gwelliant 4.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu is-bwynt newydd at bwynt 4:

'arwain at wasanaeth o ansawdd gwaeth.'

**Gwelliant 5.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd y defnydd o gontractau dim oriau ym mhob gwasanaeth cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

**Gwelliant 6.** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ymdrin â'r defnydd o gontractau dim oriau mewn gofal cymdeithasol.

Yn croesawu gwaith Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn y maes hwn, a arweiniodd at gyhoeddi egwyddorion a chanllawiau Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus ar ddefnyddio trefniadau oriau gwaith heb eu gwarantu yn briodol yng ngwasanaethau cyhoeddus datganoledig Cymru.

'Egwyddorion a chanllawiau ar gyfer defnyddio trefniadau dim oriau'n briodol o fewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig Cymru'

**Gwelliant 7.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn sicrhau bod y defnydd o gontractau dim oriau, gan gynnwys pennu hyn drwy unrhyw wasanaethau sy'n cael eu caffael, yn cael ei wahardd yn y Cynulliad.

## 7 Cyfnod pleidleisio

## 8 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6243** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd):

Cyfoethogi Bywydau Gofalwyr: Gofalu am y rhai sy'n Gofalu

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 7 Mawrth 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 22 Chwefror 2017 i'w hateb ar 1 Mawrth 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

**1. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ei gynlluniau ar gyfer datblygu gwasanaethau bysiau? OAQ(5)0124(EI)

**2. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo Sir Benfro fel cyrchfan dwristiaeth? OAQ(5)0128(EI)

**3. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael ynghylch adleoli swyddi'r Adran Gwaith a Phensiynau ledled Cymru? OAQ(5)0136(EI)

**4. Mark Reckless (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am sut y bydd yn mesur llwyddiant o ran lleihau tlodi? OAQ(5)0131(EI)

**5. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerodd Llywodraeth Cymru i gynyddu cynhyrchiant economaidd yn ninas-ranbarth Bae Abertawe? OAQ(5)0129(EI)

**6. Caroline Jones (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer yr ymwelwyr â Gorllewin De Cymru? OAQ(5)0133(EI)

**7. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am dwf economaidd yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0123(EI)

**8. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wella cysylltiadau trafnidiaeth o fewn dinas-ranbarth Bae Abertawe? OAQ(5)0127(EI)

**9. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella cysylltiadau rheilffordd yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0126(EI)

**10. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth y llywodraeth i amgueddfeydd cenedlaethol yng Nghymru? OAQ(5)0139(EI)**W**

**11.** **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gymorth i fusnesau bach? OAQ(5)0138(EI)

**12.** **Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynnydd o ran Cylchffordd Cymru? OAQ(5)0125(EI)

**13.** **Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Llywodraeth Cymru ystyried strategaeth clystyrau twf ar gyfer datblygiad economaidd rhanbarthol? OAQ(5)0135(EI)

**14.** **Mark Reckless (Dwyrain De Cymru):** Pryd y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn disgwyl i refeniw o Faes Awyr Caerdydd ad-dalu pris ei brynu? OAQ(5)0130(EI)

**15.** **Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru):** Beth yw cynigion twf Llywodraeth Cymru ar gyfer diwydiannau sylfaen? OAQ(5)0134(EI)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

**1.** **David Melding (Canol De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am drin clefydau prin? OAQ(5)0125(HWS)

**2.** **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gasgliadau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dod iddynt yn sgil derbyn yr adroddiad ar gyflwr gwasanaethau orthodontig yng Nghymru fel y trafodwyd yn y Cynulliad ar 7 Rhagfyr 2016? OAQ(5)0123(HWS)**W**

**3.** **Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wasanaethau sgrinio am ganser yng Nghymru? OAQ(5)0134(HWS)

**4.** **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amser aros ar gyfer triniaethau yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0117(HWS)

**5.** **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am amseroedd aros ar gyfer damweiniau ac achosion brys yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(5)0128(HWS)

**6.** **Lee Waters (Llanelli):** Pam na all pobl wneud apwyntiadau fel mater o drefn i weld eu meddyg drwy Skype neu FaceTime? OAQ(5)0129(HWS)

**7.** **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa driniaethau sydd ar gael i famau a ddaw'n anymataliol o ganlyniad i anaf yn ystod genedigaeth? OAQ(5)0118(HWS)

**8.** **John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran datblygu agenda iechyd ataliol yng Nghymru? OAQ(5)0130(HWS)

**9. Vikki Howells (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog preswylwyr Cwm Cynon i wneud y dewisiadau cywir o ran cael gafael ar ofal iechyd? OAQ(5)0119(HWS)

**10. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am raglen ARCH de-orllewin Cymru? OAQ(5)0120(HWS)

**11. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r canllawiau yn ymwneud â chodi tâl ar gleifion o dramor am ofal y GIG nad yw'n ofal brys? OAQ(5)0124(HWS)

**12. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran y gwasanaethau iechyd yn Sir Benfro ar gyfer y 12 mis nesaf? OAQ(5)0126(HWS)

**13. Huw Irranca–Davies (Ogwr):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ariannu hyfforddiant gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru? OAQ(5)0127(HWS)

**14. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wasanaethau fferyllol cymunedol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0131(HWS)

**15. Jeremy Miles (Castell-nedd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y proffesiwn bydwreigiaeth yng Nghymru? OAQ(5)0132(HWS)